Cymhorthydd Dysgu – Lefel 1

Cyfeirnod y Swydd: YTMC00029W1RDE
Lleoliad: Ysgol Tremeirchion
Cyflog: Gradd 2 (£12,228 - £12,472)
Oriau: 30 awr yr wythnos (Tymor Ysgol yn unig)
Math o gytundeb: Swydd Parhaol i ddechrau cyn gynted â phosib - Swydd Allanol

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr brwdfrydig ac ymroddgar i ymgeisio am y swydd yn yr ysgol hapus a llwyddiannus uchod.

Mae'r Corff Llywodraethol yn awyddus i benodi Cymhorthydd Dysgu brwdfrydig i'r ysgol. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio o dan gyfarwyddyd/arweiniad staff addysgu i helpu disgyblion ddatblygu eu sgiliau. Mae'n hanfodol bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn medru cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Bydd y penodiad yn amodol ar Wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a geirdaon boddhaol.

Os hoffech fwy o fanylion am y swydd uchod, gellir cysylltu a'r ysgol ar 01745 710328

Dyddiad Cau: Dydd Iau 19/09/2019

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein trwy gwefan Sir Ddinbych www.sirddinbych.gov.uk/. Am ddulliau eraill o wneud cais, cysylltwch â Rhian Davies ar 01745 582611 neu drwy e-bost swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk
Rhaid i ymgeiswyr gwblhau ein ffurflen gais i gael ei ystyried. Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiatáol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweliad.

This Advert is for a Teaching Assistant at Ysgol Tremeirchion for which the ability to speak Welsh is an essential requirement.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.